# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 6

PERFFORMIAD PRIF GYNGHORAU A'U LLYWODRAETHU

## PENNOD 3

CYDGYSYLLTU RHWNG RHEOLEIDDWYR

### 120 "Rheoleiddwyr perthnasol" a "swyddogaethau perthnasol"

(1) At ddibenion adran 119 swyddogaethau perthnasol Archwilydd Cyffredinol Cymru yw—

(a) archwilio cyfrifon prif gyngor o dan Bennod 1 o Ran 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (p. 23);

(b) cynnal astudiaeth o dan Bennod 2 o Ran 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 mewn perthynas â phrif gyngor;

(c) cynnal ymchwiliad o brif gyngor o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2).

(2) At ddibenion adran 119, rheoleiddiwr perthnasol yw person a grybwyllir yng ngholofn gyntaf tabl 1 a'i swyddogaethau perthnasol yw'r swyddogaethau a bennir yn yr ail golofn.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 03/12/2021. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn cael effaith mwyach.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Adran 120. (See end of Document for details)*

TABL 1

| Rheoleiddwyr perthnasol | Swyddogaethau perthnasol |
|---|---|
| Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru | Swyddogaethau o dan adran 38 o Ddeddf Addysg 1997 (p. 44) (arolygu swyddogaethau addysg etc.) |
| Gweinidogion Cymru | Swyddogaethau o dan adran 149A ac adran 149B o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4) (adolygiadau etc. o arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol) |

(3) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio tabl 1 er mwyn—
- (a) ychwanegu cofnod;
- (b) diwygio cofnod;
- (c) hepgor cofnod.

(4) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (3), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag—
- (a) unrhyw bersonau sy'n cynrychioli prif gynghorau y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy;
- (b) Archwilydd Cyffredinol Cymru;
- (c) y person y bydd cofnod newydd neu ddiwygiedig yn ymwneud ag ef.

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 03/12/2021. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn cael effaith mwyach.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Adran 120.